Tackling Child Sexual Exploitation

THE MORE YOU KNOW THE MORE YOU LOOK THE MORE YOU SEE.

Child Sexual Exploitation is child abuse

Know the signs...if you suspect a child could be at risk of, or is being sexually exploited take action. Your information could be the last piece of the jigsaw.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

Onyx

north wales Safeguarding BOARD

Child Sexual exploitation (CSE) is child abuse. It affects thousands of children under the age of 18 in the UK every year and is happening across North Wales. As a professional who works with children you have daily contact with children who are vulnerable to CSE. You will be able to identify changes in a child's behaviour, appearance or mood which could be an indicator that they are being exploited.

This leaflet is aimed at helping you to recognise, tackle and prevent Child Sexual Exploitation. CSE is a key priority for North Wales Police and we are committed to understanding and dealing with this serious crime.

CSE is child abuse

What is it?

Child Sexual Exploitation is the grooming of children, through manipulation or coercion, into taking part in some form of sexual activity in exchange for something. This could include supplying them with items such as drugs, alcohol, mobile phones or other gifts. Abusers may provide children with somewhere to stay, or demonstrate behaviour that a child may perceive as showing them 'affection' or providing them with 'protection'. This grooming can occur in person or online.

Often children are unaware that they are being groomed and very quickly the abuser can become the most important person in the child's life. They create a dependency and isolate the child from family and friends, controlling all aspects of their life. The use of social media and technology can make a child feel that there is nowhere for them to hide or feel safe from their abuser.

It is important for you to be aware of the signs and symptoms of Child Sexual Exploitation and know what to do if you have concerns.

What makes a child more vulnerable?

- Emotional neglect by parents
- Previous sexual abuse
- Family history of drug/alcohol abuse
- Family break down
- Family member with mental health problems
- Isolated from peers
- History of domestic violence in the home

Do you know a child who;

- Regularly goes missing from home
- Is regularly truanting or disengaged in education
- Has an older boyfriend or girlfriend
- Is receiving unexplained gifts or new possessions such as mobile phones, jewellery or money
- Displaying expression of despair
- Misuses drugs and alcohol
- Is being picked up or dropped off in unknown vehicles from school
- In contact with unknown adults on the internet and may have exchanged indecent images of themselves.

Prevention and early intervention should be a priority. These vulnerabilities and risk indicators are not an exhaustive list and more information is available on our web site.

Disclosures are rare...

As a professional you may be the only adult in that child's life they feel they can trust. It can take a child many months for a child to feel strong enough to tell someone what is happening to them. When a child does disclose make sure you listen... ...It may be the only time that child speaks out.

I'm worried - What shall I do?

If you have concerns that a child may be vulnerable and is displaying risk indicators associated with CSE **TAKE ACTION**.

ANY concerns you have **MUST** be escalated in in line with the Child Protection Procedures of your own organisation or professional body.

If you have **ANY** concerns that a child may be at immediate risk phone **999**.

Further information and advice can be found on the North Wales Police website.

Scan this QR code with your smart phone to go to the CSE web page

Other useful websites and contact details.

Barnardos:
Help, support and advice in dealing with Child Sexual Exploitation. For Barnardos SERAF service contact **02920 491743** or **www.barnardos.org.uk/cutthemfree**

NWG: Organisation to help provide information, help and support. Contact **01332 585371** or **www.stop-cse.org**

Parents against Child Sexual Exploitation: National helpline **0113 240 3040** or **www.paceuk.info**

Taclo Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

GWYBOD MWY EDRYCH MWY GWELD MWY.

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn gam-drin plant

Gweld yr arwyddion... Os ydych chi'n amau y gallai plentyn fod mewn perygl o gael ei gam-drin yn rhywiol, neu'n amau fod hyn eisoes yn digwydd, gwnewch rywbeth yn ei gylch. Efallai mai'r wybodaeth sydd gennych chi fydd darn olaf y jig-so.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

Onyx

BWRDD Diogelu Gogledd cymru

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) yn gam-drin plant. Mae'n effeithio ar filoedd o blant dan 18 oed yn y DU bob blwyddyn ac mae'n digwydd ar draws Gogledd Cymru. Fel rhywun proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant rydych yn cael cyswllt bod dydd â phlant bregus sydd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio arnynt yn rhywiol. Byddwch yn gallu gweld newidiadau mewn ymddygiad neu ymddangosiad plentyn sydd o bosibl yn arwydd eu bod nhw'n cael eu hecsbloetio.

Nod y daflen hon yw eich helpu chi i adnabod a cheisio atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae CRhB yn un o flaenoriaethau allweddol Heddlu Gogledd Cymru ac rydym wedi ymrwymo i ddeall â delio â'r trosedd difrifol hwn.

Mae CRhB yn gam-drin plant

Beth ydy o?

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ydy 'paratoi' plant drwy ddylanwadu arnyn nhw neu eu gorfodi nhw i gymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd rhywiol yn gyfnewid am rywbeth. Gallai hyn gynnwys rhoi pethau fel cyffuriau, alcohol, ffonau symudol neu anrhegion eraill iddyn nhw. Efallai y bydd y sawl sy'n eu cam-drin yn cynnig lle iddyn nhw aros, neu efallai y byddan nhw'n ymddwyn mewn ffordd y bydd y plentyn yn ei ystyried yn 'gariadus' neu'n rhoi 'amddiffyniad' iddyn nhw. Gall y math hwn o baratoi ddigwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Yn aml iawn fydd plentyn ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n cael eu paratoi a gall camdriniwr yn gyflym iawn ddod yn rhywun pwysig dros ben yn eu bywyd. Byddant yn gwneud y plentyn yn ddibynnol arnyn nhw ac yn eu cadw oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau gan reoli pob agwedd ar eu bywyd. Gall y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg wneud i blentyn deimlo nad oes ganddynt unman i guddio ac i deimlo'n ddiogel rhag eu camdriniwr.

Mae'n bwysig i chi fod yn ymwybodol o arwyddion a symptomau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'ch bod yn gwybod beth i'w wneud os 'da chi'n poeni.

Beth sy'n gwneud plentyn yn fwy agored i gael eu cam-fanteisio arnynt yn rhywiol?

- Esgeulustra emosiynol ar ran y rhieni
- Wedi dioddef camdriniaeth rywiol yn y gorffennol
- Hanes teuluol o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- Teulu wedi chwalu
- Aelod o'r teulu gyda phroblemau iechyd meddwl
- Dim cyswllt â chyfoedion
- Hanes o drais yn y cartref

Ydych chi'n adnabod plentyn sy'n

- mynd ar goll o'u cartref yn aml
- absennol o'r ysgol yn aml neu sydd wedi colli diddordeb yn eu haddysg
- â chariad hŷn na nhw
- cael anrhegion neu sydd â phethau fel ffonau symudol, gemwaith neu arian yn eu meddiant heb unrhyw eglurhad
- mynegi teimladau o anobaith
- camddefnyddio cyffuriau ac/neu alcohol
- cael ei danfon i'r ysgol â'u nôl mewn cerbydau dieithr
- cysylltu ag oedolion anhysbys ar y rhyngrwyd ac sydd efallai wedi cyfnewid lluniau anweddus ohonynt eu hunain

Dylai ymyrraeth gynnar ac ataliaeth fod yn flaenoriaeth. Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob risg ac arwydd o freguster posibl ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Anaml iawn y bydd plentyn yn dweud o'u gwirfodd...

Fel unigolyn proffesiynol efallai mai chi fydd yr unig oedolyn y bydd y plentyn yn teimlo y gall ymddiried ynddyn nhw. Gall gymryd misoedd lawer i blentyn deimlo'n ddigon hyderus i ddweud wrth rywun beth sy'n digwydd. Os bydd plentyn yn dweud wrthoch chi beth sy'n mynd ymlaen, cofiwch wrando'n ofalus..... efallai na wnân nhw byth ddweud wrth neb eto.

Dwi'n poeni – be' wna'i?

Os oes gennych chi unrhyw bryderon y gallai plentyn fod yn fregus a'u bod yn arddangos rhai o'r arwyddion cysylltiedig â Chamfanteisio'n Rhywiol – **GWNEWCH RYWBETH**.

Mae'n **RHAID** i chi riportio **UNRHYW** bryderon sydd gennych yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Plant eich sefydliad neu eich corff proffesiynol eich hun.

Sganiwch y cod QR hwn gyda'ch ffôn clyfar i fynd i'r dudalen lle cewch ragor o wybodaeth am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Os oes gennych **UNRHYW BRYDERON O GWBL** bod plentyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch **999**.

Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael ar wefan Heddlu Gogledd Cymru.

Gwefannau a manylion cyswllt defnyddiol eraill:

Barnardos:
Cymorth, cefnogaeth a chyngor i ddelio â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. I gael gwasanaeth SERAF Barnardos ffoniwch **02920 491743** neu **www.barnardos.org.uk/cutthemfree**

Y Gweithgor Cenedlaethol (NWG):
Sefydliad elusennol sy'n rhoi gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth. Ffoniwch **01332 585371** neu ewch i **www.stop-cse.org**

Rhieni yn Erbyn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant:
Llinell Gymorth Genedlaethol **0113 240 3040** neu **www.paceuk.info**